

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Cofnodion

Teitl y cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Lleoliad: Cyfarfod dros Microsoft Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 21 Chwefror 2022

Yn bresennol:

Bob Vaughan, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Chris Thomas, CNC

Fraser McAuley, CLA

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Charlotte Priddy, AHDB

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Sarah Hetherington, CNC

Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:

Geraint Hughes, Cyswllt Ffermio (Eitem 3)

Ysgrifenyddiaeth:

Bronwen Martin, CNC

Ymddiheuriadau:

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Ruth Johnston, CNC

Nichola Salter, CNC

Kate Snow, United Utilities

Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Nid yw Zoe wedi gallu ymuno â'r cyfarfod oherwydd problemau pŵer yn dilyn y tywydd garw, felly Bob Vaughan, CNC, yw'r Cadeirydd heddiw. Croesawodd Bob bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddiigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.
 - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.
3. Croesawodd Bob westai i'r cyfarfod; Geraint Hughes, Cyswllt Ffermio.

Eitem 2 Adolygiad o Gofnodion

4. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2021. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na gwelliannau mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Ionawr.
6. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, y camau gweithredu a oedd yn weddill a rhoddwyd diweddariadau llafar.

Eitem 3 Cyflwyniad gan Cyswllt Ffermio: Treial synwryddion yn llywio'r defnydd o slyri

7. Ymunodd Geraint Hughes (Cyswllt Ffermio) â'r cyfarfod i drafod y treial synwryddion ar fferm laeth ar Ynys Môn i helpu gyda gweithrediadau gwasgaru slyri.
8. Cyflwynodd Geraint ei hun, gan roi cefndir ei gwmni [Grŵp Ymgynghori Lafan](#) a [Dewin Tech](#). Ar hyn o bryd, mae ganddynt un cynnyrch masnachol ar y farchnad, sef system agor/cau â synhwyrdd di-wifr pellter hir ar gyfer gatiau, drysau, ffenestri, cabinetau ac ati. Maent hefyd wrthi'n sefydlu prawf cysyniad Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer troi blwch lloia yn bedwar camera, gan greu system synhwyrdd awtomatig sy'n helpu ffermwyr i fonitro ymddygiad lloia yn ystod y tymor lloia. Bydd y system hon yn helpu ffermwyr gyda rheoli buchesau a lles anifeiliaid.
9. Soniodd Geraint eu bod hefyd yn frocer o dan Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd (EIP) Cymru a'u bod yn cefnogi pum prosiect. Mae un o'r rhain yn treialu'r defnydd o dechnoleg Rhyngwryd y Pethau (IoT) ar gyfer ymateb i'r her ganlynol:

HER: gyda maint cyfartalog ffermydd llaeth Cymru yn ehangu, gan arwain at gynnydd yng nghyfanswm y slyri sy'n cael ei storio a'i wasgaru fesul fferm, mae ffermwyr yn chwilio am atebion a fydd yn eu helpu i wneud y dewisiadau gorau ar eu caeau. Bydd ffermwyr am leihau'r risg o lygru cyrsiau dŵr ar eu ffermydd, ond byddant am fanteisio'n llawn ar y maetholion sydd ar gael mewn slyri i ffrwythloni eu priddoedd ymhellach.

10. Mae'r prosiect wedi'i wneud yn fwy penodol drwy edrych ar ddefnyddio synwryddion i leihau dŵr ffo o'r wyneb. Caiff ei ehangu ymhellach i edrych ar gynnwys maetholion, gwerth maetholion mewn priddoedd a ffyrdd y gall llygredd fynd i mewn i gyrsiau dŵr.
11. Rhoddodd Geraint gefndir byr i'r prosiect a chrynhoi camau cynllun y prosiect - [Cyswllt Ffermio - rhwydwaith synwryddion 'Rhyngwryd y Pethau'](#).
12. Mae technoleg Rhyngwryd y Pethau (IoT) yn golygu cymryd pob 'peth' a'u cysylltu â'r rhyngwryd. Pan fydd rhywbeth wedi'i gysylltu â'r rhyngwryd, gall anfon a derbyn gwybodaeth. Mae cysylltu'r 'pethau' hyn â'r rhyngwryd yn rhoi mynediad i chi at yr wybodaeth y maent yn ei hanfon a'i derbyn. Gall y wybodaeth hon helpu i wneud penderfyniadau mwy cywir. Mae defnyddio IoT mewn lleoliadau gwledig wedi bod yn anodd hyd yma.
13. Disgrifiodd Geraint sut mae pyrth LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Pellter Hir) yn gweithredu fel cyswllt rhwng ffynonellau data (synwryddion yn yr amgylchedd) a phobl. Mae'n caniatáu i ni wneud IoT ar raddfa tirwedd ac ar raddfa wledig/fferm. Mae LoRaWAN yn caniatáu i ddyfeisiau IoT gyfathrebu â chymwysiadau sydd wedi cysylltu â'r rhyngwryd dros bellteroedd hir heb ddefnyddio fawr ddim batri. Crynhodd Geraint rai o fanteision a buddiannau LoRaWAN.
14. Ar ôl yr adolygiad desg o synwryddion sydd ar gael, prynwyd amryw o synwryddion ac fe'u treialwyd i weld sut roeddent yn perfformio mewn sefyllfa go iawn. Cawsant eu monitro am gyfnod o tua 6 mis a rhoddodd gwyddonydd pridd adborth ar gywirdeb yr offerynnau hyn hefyd.
15. Yn ystod y prosiect, cafodd pob un o'r tair fferm yng Nghymru (Ffermydd Arddangos Cyswllt Ffermio) fesurydd glaw, mesurydd tymheredd a lleithder aer, chwiledyddion

tymheredd a lleithder y pridd (x3) a synhwyrdd pellter uwchsain. Mae lleoliad y synwryddion yn bwysig iawn.

16. Disgrifiodd Geraint y ddamcaniaeth ynghylch gosod synhwyrdd uwchben pwll slyri. Buont yn ymgynghori â CNC a dywedwyd wrthynt fod llawer o'r achosion o lygredd difrifol yn digwydd pan fydd y pwll slyri'n gorlifo a bod hyd yn oed y seilwaith gorau yn gallu methu. Roedd yr adborth yn awgrymu y gallai cael synhwyrdd sy'n canfod newid sydyn yn y pwll slyri fod o werth ac yn rhan o broses fonitro. Gallai hyn hefyd greu rhybudd i'r ffermwr ac arbed amser hollbwysig wrth ymateb yn gyflymach i sefyllfa.
17. Rhoddodd Geraint drosolwg byr o'r rhaglen 'dewin dŵr' sy'n edrych ar osod synwryddion i fonitro ansawdd dŵr. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys treial gyda detholiad eang o ffermydd arddangos presennol sydd i gyd yn cael eu heffeithio gan newidiadau deddfwriaethol a newidiadau i'r diwydiant yn y dyfodol.
18. Dywedodd Geraint eu bod yn gweithio'n agos gyda John Owen o Gelli Aur ac yn rhannu dysgu o'r gwaith hwn ac o Ap Tywydd Tywi. Ar hyn o bryd, maent yn trafod sut y gallent gydweithio ar ddelweddu drwy ryngwyneb rhaglennu cymwysiaidau (API). Maent hefyd yn rhannu barn ar ddiffinio paramedrau ar gyfer rhybuddion coch/gwyrdd ar gyfer gwasgaru slyri.
19. Gorffennodd Geraint gyda rhai sylwadau:
 - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 – symud oddi wrth ddull sy'n seiliedig ar galendr? Statws gweithredwr dibynadwy? Datblygiadau mewn technoleg, ac ychydig iawn o fusnesau fferm sydd â'r gallu i wneud gwaith ymchwil a datblygu.
 - Gall data o rwydwaith synwryddion dibynadwy weithredu fel log archwilio.
 - Cefnogi gwell penderfyniadau y tu hwnt i wasgaru slyri e.e. gallai synhwyrdd tymheredd pridd gynorthwyo ffermwr i benderfynu pryd fyddai'r amser gorau i wasgaru gwrtait N ar ddechrau tymor newydd.
 - Trafodaethau'n parhau am gyd-ddysgu a chydweithio â 'Tywydd Tywi' gyda'r awydd i gydweithio'n agosach yn y dyfodol.
 - A ydym yn barod i dreialu 'dalgyllch digidol' yng Nghymru? Data o orsafoedd tywydd lleol wedi'i ategu gan ddata penodol o ffermydd lle mae'n cynnig gwerth a gosod synwryddion mewn nentydd ac afonydd i fonitro ansawdd dŵr.
20. Gofynnodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, pam y defnyddiwyd 'lleihau' yn hytrach nag 'atal' llygredd. Dywedodd Geraint fod rheoli disgwyliaidau yn bwysig wrth weithio gydag arloesedd a'i bod yn llawer doethach defnyddio 'lleihau' na 'dileu'. Nododd Chris fod llygru yn erbyn y gyfraith, felly nid yw pobl mewn sefyllfa i'w 'leihau'.
21. O ran cwmpas data, gofynnodd Bob pan mae'r synwryddion yn gweithredu a ydynt i gyd ar yr amllder priodol ac yn gweithredu mewn amser real gyda chofnodi parhaus. Dywedodd Geraint y gallwch chi eu hamrywio a bod amllder casglu data yn dibynnu ar ba mor werthfawr fyddai cofnodi data mynych. Rhaid ystyried oes batri hefyd.

22. Gofynnodd Ed Davies, CNC, am y cysyniad o gydweithfa data fferm. Dywedodd Geraint fod cwmnïau rhyngwladol yn casglu data o fusnesau gwledig ac nad oes gennym reolaeth ar hyn o bryd. Efallai y bydd cyfle i gael ymateb mwy cydgysylltiedig i hyn fel bod ffermwyr yn rheoli eu data eu hunain lle gallent gael cyfleuster storio data, ac yna byddai ganddynt y gallu i rannu data er budd busnesau fferm.
23. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod y synhwyrdd storfa slyri yn defnyddio'r rhesymeg o gofnodi newid yn hytrach na monitro yn barhaus. Fodd bynnag, o ran ansawdd dŵr, byddai angen data mwy parhaus. Gofynnodd Sarah a yw'r system yn ddigon craff i fynd drwy newid rhesymeg ac yna anfon y data, yn ogystal ag ymestyn oes batri. Dywedodd Geraint fod modd diffinio'r paramedrau.
24. Gofynnodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, am y gost y system hon ar gyfer un synhwyrdd ar un fferm a'r defnydd ohoni. Dywedodd Geraint mai'r peth cyntaf i'w wneud yw pennu a oes LoRaWAN ar gael; os felly, byddai gât gadarn yn costio tua £800 a byddai'n costio £300-£500 arall i berson osod y system hon; felly, gallai gât gostio tua £1,200. Soniodd Geraint fod llawer o'r Cynghorau Sir, yn enwedig y rhai gwledig yng Nghymru, yn cyflwyno'r rhain (e.e. eu gosod mewn ysgolion). O ran y synhwyrdd, byddai'r chwiledyddion tymheredd a lleithder pridd yn costio tua £250-300. Mae'r ffermwr yn annhebygol o brynu'r synhwyrdd, ond efallai y bydd yn prynu pecyn gan gwmni ar sail tanysgrifiad a fyddai'n costio tua £10-20 y mis. Dywedodd Geraint eu bod yn gwerthu'r gât agor/cau am £40 a thanysgrifiad o £5 y mis. Nid yw cost o reidrydd yn cael ei hystyried yn rhwystr sylweddol i'r system hon.
25. Soniodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin, am gyflwyniad blaenorol gan John Owen, Gelli Aur, ynghylch y Prosiect Slyri ac Ap Tywydd Tywi. Gofynnodd Creighton ynghylch cofnodi gwybodaeth mae'r ffermwr yn dibynnu arni. Dywedodd Geraint fod y data'n cael ei gofnodi a'i gadw yn y storfa ddata ar y gronfa ddata cwmwl a bod y ffermwyr yn gallu gweld y data o'u ffermydd. O ran cywirdeb, mae hyn yn rhywbeth y gallai fod angen i'r rhai sy'n gorfodi ei ystyried a sut y gallent gadarnhau cywirdeb y pwyntiau data a gesglir ar fferm. Awgrymodd Geraint efallai fod cyfle i gyrff gorfodi gael eu rhwydwaith eu hunain o synwryddion y gallant eu defnyddio wedyn i wirio cywirdeb y data. Gellir ystyried rhannu data ar gais hefyd.
26. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC, a fyddai'r system hon yn ystyried Rhagolygon y Swyddfa Dywydd i lywio'r senarios coch/gwyrdd a helpu i wneud penderfyniadau. Dywedodd Geraint fod hyn yn rhywbeth y maent wedi mynd i'r afael ag ef, ond y byddai dehongli'r rhagolygon ar gyfer senario coch/gwyrdd yn anodd ac nad yw'r dechnoleg yn bodoli eto.
27. Diolchodd Bob i Geraint am ei gyflwyniad a dywedodd y byddai'n dda cadw mewn cysylltiad gyda'r diweddaraf am y prosiect hwn.

PG 01 Chwefror: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o gyflwyniad Geraint Hughes ar y treial synwryddion.

Eitem 4 Materion yn Codi

28. Gwahoddodd Bob y grŵp i drafod unrhyw faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, y Papur Diweddarau neu ddogfennau perthnasol.

29. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA, a yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pwy fydd yn cymryd lle Spencer Conlon. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, nad oes newyddion ynghylch pwy fydd yn cymryd lle Spencer eto.
30. Diolchodd Dennis i'r Is-grŵp am anfon y llythyr at y Gweinidog ynghylch materion Tenantiaeth, a nododd y llythyr ymateb hefyd.
31. Rhoddodd Fraser McAuley, CLA, adborth ynghylch profiadau aelodau CLA o geisio cael ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo.
32. Gofynnodd Creighton gwestiwn ynghylch digwyddiad llygredd ar Afon Clettwr (un o is-afonydd afon Teifi). Rhoddodd Marc ddiweddariad byr.
33. Soniodd Bob am bennod Panorama y BBC a ddarllledwyd nos Lun 14 Chwefror, 'A Cow's Life: The True Cost of Milk? Trafododd y grŵp rai o'r pwyntiau a godwyd yn y bennod.

Dywedodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin, fod y rhaglen deledu wedi tynnu sylw at ddau brif bryder. Yn gyntaf, y ffordd yr ymdriniwyd â materion lles anifeiliaid. Yn ail, fferm Tractor Coch oedd hon. Mae hyn yn awgrymu bod modd ardystio bod fferm yn cael ei rhedeg yn dda a bod ganddi safonau lles uchel, ond cyn gynted ag y bydd yr arolygydd yn cerdded oddi ar y fferm, nid oes unrhyw beth i atal rhywun rhag cyflawni arferion annerbyniol.

Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod gan y fferm yn y rhaglen 800 o wartheg ac nad yw un fuwch yn gynrychiadol o'r ffordd mae'r ffermwyr hwnnw'n gweithredu. Dylai'r person cudd fod wedi rhoi gwybod am y fuwch honno yn hytrach na chasglu tystiolaeth ac ati. Soniodd Bernard am rai o'r pwyntiau eraill a godwyd yn y rhaglen, gan gynnwys pris llaeth.

34. Tynnodd Bronwen Martin sylw at y nodyn yn y Papur Diweddarau ynghylch Newidiadau i Eithriadau Gwastraff gan Geraint Richards, CNC:

Mae aelodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn debygol o fod yn gyfarwydd ag eithriadau gwastraff, hyd yn oed os nad ydynt yn ymwneud â'r diwydiant gwastraff. Yn benodol, rhaid i ffermwyr eu cofrestru ar gyfer gweithgareddau cyffredin sy'n digwydd ar ffermydd sy'n creu gwastraff e.e. adeiladu traciau, llosgi llystyfiant wedi'i glirio a charthu cyrsiau dŵr.

Mae Llywodraeth Cymru a DEFRA wedi bod yn cynnal adolygiad o eithriadau gwastraff ac wedi cynnig amryw o newidiadau y disgwylir iddynt ddod i rym yn ddiweddarach eleni.

Y bwriad y tu ôl i'r newidiadau yw mynd i'r afael â throseddau gwastraff ac effeithiau'r diwydiant gwastraff ar yr amgylchedd, a chan nad oedd materion yn ymwneud â ffermio wedi'u nodi fel materion allweddol i fynd i'r afael â nhw, maent wedi'u dylunio i geisio caniatáu i weithgareddau ffermio arferol barhau heb eu heffeithio. Fodd bynnag, bydd angen i ffermwyr fod yn ymwybodol o'r newidiadau a gallai fod effeithiau uniongyrchol lle mae gweithgareddau gwastraff arallgyfeirio yn digwydd ar ffermydd megis Treulio Anaerobig neu weithgareddau adeiladu.

Yn ogystal, mae eithriadau'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, ac mae hynny'n digwydd eleni, ac rydym yn disgwyl i lawer o ffermwyr adnewyddu eu heithriadau cyn diwedd 2022.

Cynhelir ymgyrch gyfathrebu eleni i roi gwybodaeth i'r rhai a allai gael eu heffeithio, ac rydym yn chwilio am gysylltiadau o Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a all ein helpu gyda'r cyfathrebu, yn enwedig yr undebau amaethyddol yng Nghymru.

Cysylltwch â Geraint Richards, CNC (mae ei gyfeiriad e-bost wedi'i ddsbarthu).

PG 02 Chwefror: Aelodau i gysylltu â Geraint Richards, CNC, i gefnogi'r gwaith o rannu cyfathrebiadau a gwybodaeth am y newidiadau sydd ar y gweill i Eithriadau Gwastraff.

Eitem 5 Amcanion Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

35. Soniodd Ed Davies, CNC, am yr eitem hon mewn ymateb i awgrym y dylai'r sefydliadau yn y grŵp hwn weithio mwy mewn partneriaeth â'i gilydd. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yn well pa rai o gamau gweithredu'r sefydliadau sy'n cyd-fynd ag amcanion Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, tynnu sylw at gyfleoedd i gydweithio a chaniatáu i ni ddefnyddio cysylltiadau sy'n bodoli eisoes. Adolygodd Ed argymhellion [Adroddiad Interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru \(2018\)](#) a darparodd ddogfen grynoded a ddsbarthwyd cyn y cyfarfod hwn.
36. Dywedodd Bernard fod llawer o'r pwyntiau ynghylch yr arferion rheoli gorau yn cyd-fynd ag Undeb Amaethwyr Cymru gan eu bod yn ddsbarthu gwybodaeth i'w haelodau drwy'r pwyllgorau llaeth, defnydd tir, da byw a bryniau, yn ogystal â chyfarfodydd gweithredol sirol. Nid yw Undeb Amaethwyr Cymru yn mentro i faes ymgynghori i bob pwrpas; mae hynny'n digwydd drwy Cyswllt Ffermio ac ADAS. Dywedodd Bernard fod eu pwyllgor addysg a hyfforddiant yn ymdrin â DPP.
37. Dywedodd Ed nad oes disgwyliad y byddai pob sefydliad yn cyfrannu at bob amcan ond, pan fydd pethau'n alinio, gall fod o gymorth. Dywedodd Ed y bydd yn ailstrwythuro'r ddogfen gychwynnol fel ei bod yn haws i aelodau nodi'r hyn y maent yn ei wneud a lle mae cyfleoedd i gydweithio. Gofynnodd Ed am adborth ar y rhestr gychwynnol hon, yn enwedig os oes unrhyw beth ar goll o'r rhestr.

PG 03 Chwefror: Aelodau i roi adborth erbyn 4 Mawrth ar y rhestr gychwynnol o amcanion yr Is-grŵp y bydd yr aelodau'n cyfrannu atynt. Yn arbennig, dylent nodi a oes unrhyw beth ar goll o'r rhestr neu awgrymu gwelliannau/pwyntiau ychwanegol.

38. Eglurodd Sarah Hetherington, CNC, y gallai aelodau anfon gwybodaeth at Ed a Bronwen i'w hystyried.
39. Dywedodd Ed y croesewir unrhyw wybodaeth, a dylai hyn fod yn werthfawr i'r grŵp cyfan. Mae cyfle i hyn fod yn gofnod i helpu i roi prosiectau ar waith yn y dyfodol, er enghraifft, gallech edrych ar y rhestr hon a gweld bod aelod arall o'r Is-grŵp hefyd yn gwneud rhywbeth sy'n alinio ac a allai wedyn helpu gydag ymgysylltu, sicrhau ansawdd, partneriaethau ac ati.

40. Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod hwn yn ddechrau defnyddiol ond, yn gyntaf, mae angen iddo alinio ag amcanion penodol y grŵp hwn a lle mae gan sefydliadau gyfraniadau clir i'w gwneud. Cytunodd Bob, a dylai pobl wedyn ymrwymo i hyn. Dywedodd Ed fod hynny wedi'i wneud yn y gorffennol gydag Adroddiad Interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (2018), ond efallai fod angen diweddarau hyn i adlewyrchu newidiadau diweddar. Awgrymodd Chris y gallai hyn fod yn rhywbeth i'w drafod a'i ddatrys pan fyddwn yn cyfarfod fel grŵp mewn person; beth mae'r grŵp hwn yn ceisio ei gyflawni. Cytunodd Bob â'r awgrym hwn ac argymhellodd y dylid cael ymrwymiad gan y gwahanol bartneriaid i gyflawni amcanion penodol hefyd.

41. Soniodd Sarah fod hyn yn bwysig i fynd ymlaen i'r cam nesaf ac adeiladu rhwydwaith o gymhwysedd i helpu i ddod â phrosiectau a gwaith yn y dyfodol ynghyd.

42. Nododd Marc amcanion y Grŵp o ddogfen Cylch Gorchwyl Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru:

- Cynnal dadansoddiad o wraidd y broblem er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o achosion llygredd amaethyddol a'r ffyrdd yr eir i'r afael â'r rhain ar hyn o bryd.
- Nodi opsiynau posibl ar gyfer mesurau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol sydd â'r nod o fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.
- Amcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen ac arfarnu pob opsiwn o ran dadansoddiad cost a budd cyn belled ag y bo modd.
- Dewis nifer llai o opsiynau blaenoriaeth ar gyfer eu datblygu ymhellach, gan ystyried y rhai sy'n debygol o fod y mwyaf buddiol yng nghyd-destun ffynonellau eraill o lygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle.
- Mabwysiadu dull partneriaeth o nodi a gwneud cais am yr adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu mentrau penodol a, phan fo'n briodol, gweithredu fel y Grŵp Llywio yn ystod y cyfnod gweithredu;
- Mynd i'r afael â'r gofyniad i sefydlu targedau mesuradwy ar gyfer lleihau nifer y digwyddiadau llygredd amaethyddol yn y tarddle, mynd i'r afael â graddau llygredd gwasgaredig a gwella ansawdd dŵr dros gyfnod penodol;
- Codi ymwybyddiaeth ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol o fewn Fforwm Rheoli Tir Cymru a chyrrff sector perthnasol megis AHDB Dairy, Hybu Cig Cymru (HCC) a chynghorwyr amaethyddol;
- Asesu unrhyw weithgareddau neu ymyriadau mewn perthynas â chanlyniadau sy'n ymwneud â lleihau achosion o lygredd amaethyddol yng Nghymru;
- Datblygu a chyflwyno prosiectau arloesol i helpu i leihau achosion o lygredd amaethyddol yng Nghymru;
- Rhannu cyfathrebiadau â sefydliadau sy'n aelodau er mwyn sicrhau bod negeseuon cywir a chyson yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Eitem 6 Unrhyw fater arall

43. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 21 Mawrth 2022.

44. Awgrymwyd y gellid trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb ar gyfer dydd Llun 25 Ebrill 2022.

45. Soniodd Eimir Williams, Cyswllt Ffermio, fod gweminar yn cael ei chynnal ar 15 Mawrth ynghylch "Sut y gall gwella ansawdd dŵr fod o fudd i'ch busnes a'r amgylchedd". Bydd Eimir yn dosbarthu gwybodaeth drwy Bronwen.

PG 04 Chwefror: Eimir Williams, Cyswllt Ffermio, i ddosbarthu'r wybodaeth ar gyfer y weminar ynghylch dalgylchoedd â blaenoriaeth wedi'u targedu.

46. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, fod DEFRA wrthi'n sefydlu pwyllgor i edrych ar bethau y gellid eu gwneud i alluogi tenantiaid i gymryd rhan yn eu cynllun rheoli tir amgylcheddol a chydymffurfio â'r rheoliadau dŵr a phlannu coed. Mae George Dunn, Prif Swyddog Gweithredol TFA, ar y pwyllgor ac mae DEFRA wedi sylweddoli bod problemau i denantiaid. Soniodd Dennis nad yw'n hysbys a fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un fath ond roedd yn gobeithio y caiff pwyllgor penodol ei sefydlu yng Nghymru i edrych ar y darlun cyffredinol. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, y byddai'n mynd â hyn yn ôl at ei gydweithwyr sy'n ymdrin â thenantiaethau i weld a oes diweddariad.

PG 05 Chwefror: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, i weld a oes diweddariad ar denantiaethau a'r gwaith mae DEFRA yn ei wneud.

47. Gofynnodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin, a oedd diweddariad ynghylch pryd y bydd canlyniad yr Adolygiad Barnwrol yn hysbys. Dywedodd Andrew nad oes diweddariad ar hyn o bryd.

48. Soniodd Bernard am y diweddariad ar ddigwyddiadau llygredd llaeth sy'n dangos gostyngiad ac awgrymodd y dylai'r grŵp groesawu'r duedd hon.

49. Soniodd Bob fod e-bost wedi'i ddosbarthu yn cynnwys dogfen disgwyliadau CNC a oedd yn manylu ar ddyheadau i gwmnïau dŵr eu cyflawni fel rhan o broses PR24 Ofwat. Cysylltwch â Ruth Johnston, CNC, gydag unrhyw farn neu sylwadau erbyn dydd Gwener 11 Mawrth 2022.

PG 06 Chwefror: Aelodau i gysylltu â Ruth Johnston, CNC, gydag unrhyw farn neu sylwadau ar ddogfen disgwyliadau CNC ynghylch proses PR24 Ofwat erbyn dydd Gwener 11 Mawrth 2022.

Diwedd y cyfarfod